



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Cefnogwch y proffesiwn gofal yng Nghymru drwy noddi Gwobrau 2023

Gwybodaeth am gyfleoedd i noddi'r Gwobrau 2023.

Cyhoeddwyd gyntaf: 8 Rhagfyr 2022

Diweddariad olaf: 26 Ebrill 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/y-gwobrau/cefnogwch-y-proffesiwn-gofal-yng-nghymru-drwy-noddi-gwobrau-2023> am y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am gyfleoedd i noddi'r Gwobrau 2023.

Mae'r Gwobrau yn gyfle i'ch sefydliad ddangos eich cefnogaeth i weithwyr sy'n gwneud cymaint i ofalu am eraill yn ein cymunedau.

Trwy noddi'r Gwobrau, gallwch:

- helpu'n uniongyrchol i godi safonau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru
- cael eich cysylltu â rhagoriaeth a chyflawniad.

Byddwn hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i gefnogaeth eich sefydliad i'r Gwobrau i fwy na 100,000 o weithwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ym maes gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. A hyn i gyd am fuddsoddiad cymharol fach.

Pam noddi Gwobrau 2023?

Mae noddi Gwobrau 2023 yn gost-effeithiol, ac mae yna fuddion amlwg. Mae sawl rheswm pam mae noddi'r gwobrau'n gwneud synnwyr busnes da:

- **mae ganddyn nhw broffil uchel**

Mae'r proffesiwn gofal yn cydnabod y gwobrau fel uchafbwynt llwyddiant y rhai sy'n darparu gwasanaethau i oedolion a phlant yng Nghymru.

Mae hyn yn golygu bod y Gwobrau yn uchel iawn eu parch ymysg y gweithlu o 100,000 o bobl.

Mae nifer sylweddol o'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol yn bresennol yn y seremoni wobrwyo fel arfer, gan gynnwys:

- y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
- uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol
- cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol
- cynghorwyr lleol â chyfrifoldeb am wasanaethau cymdeithasol
- penaethiaid sefydliadau gofal cenedlaethol
- rheolwyr sefydliadau gofal.

- **maen nhw'n sefyll am ragoriaeth a chyflawniad**

Nod y Gwobrau yw cydnabod y timau gofal cymdeithasol a gofal plant ac unigolion gorau oll.

Mae'r safon yn uchel iawn, sy'n gwneud y Gwobrau yn opsiwn gwyb i sefydliadau sy'n dymuno cael eu cysylltu â rhagoriaeth a chyflawniad.

- **maen nhw'n uniongyrchol gysylltiedig â sicrhau safonau gofal uchel yng Nghymru**

Bydd eich nawdd yn helpu i ysgogi'r rhai sy'n cymryd rhan i gadw safonau'n uchel a rhannu arferion da gyda'u cydweithwyr.

- **maen nhw'n fuddsoddiad cost-effeithiol**

Yn fwy nag erioed, mae angen prisio'r pecynnau nawdd yn rhesymol i wneud synnwyr busnes i unrhyw sefydliad. Dyna pam mae'r gost o fod yn rhan o'r Gwobrau yn costio cyn lleied â £2,500.

Pecynnau nawdd

Mae dwy ffordd y gallwch chi gefnogi Gwobrau 2023:

- fel y prif noddwr
- drwy noddi gwobrau unigol.

Prif noddwr

Fel y prif noddwr, byddwch chi'n cael:

- eich enw a'ch logo ar yr holl ddeunydd cyfathrebu am Wobrau 2023
- eich enw a'ch logo ar ein tudalennau gwe yn hyrwyddo'r Gwobrau
- hyperddolen i'ch gwefan o dudalennau gwe'r Gwobrau
- marchnata ar-lein, drwy e-bost ac ar y cyfryngau cymdeithasol rhwng nawr a'r seremoni wobrwyo
- logo prif noddwr y Gwobrau wedi'i gynllunio'n arbennig i chi ei ddefnyddio ar eich deunydd swyddfa a marchnata hyd at 1 Rhagfyr 2023
- eich crybwyll ym mhob datganiad newyddion am Wobrau 2023
- bwrdd i wyth mewn safle heb ei ail yn y seremoni wobrwyo amser cinio ddydd Iau 27 Ebrill 2023 yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd
- eich enw a'ch logo yn cael eu harddangos yng nghanol y llwyfan yn y seremoni wobrwyo
- eich enw a'ch logo ar ddechrau a diwedd fideos byr y rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol
- eich enw a'ch logo ar y cyflwyniad sleidiau yn ystod y seremoni wobrwyo
- cydnabyddiaeth o'ch cefnogaeth mewn areithiau gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Chadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru, a'r prif gyflwynydd
- cyfle i siarad am hyd at bum munud ar ddechrau'r seremoni wobrwyo
- cyfle i gael stondin arddangos yn y seremoni wobrwyo

- eich enw ar dlysau a thystysgrifau pawb sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol
- eich enw a'ch logo yn rhaglen y seremoni wobrwyo
- hysbyseb tudalen lawn yn rhaglen y seremoni wobrwyo
- crybwyll eich enw yn ein heitemau e-fwletin am y Gwobrau, sy'n cyrraedd mwy na 45,000 o ymarferwyr.

Noddi gwobrau unigol

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn noddi un o'r gwobrau, mae pum categori i ddewis ohonyn nhw. Mae tri ar gyfer timau a sefydliadau, a dau ar gyfer unigolion. [Rhagor o wybodaeth am y categorïau.](#)

Am noddi un o'r categorïau, byddwch chi'n cael:

- nawdd egsgliwsif i'r categori gwobrau o'ch dewis
- eich enw ym mhob math o ddeunydd cyfathrebu am eich categori
- eich enw a'ch logo ochr yn ochr â'ch categori dewisol ar dudalennau gwe Gofal Cymdeithasol Cymru yn hyrwyddo Gwobrau 2023
- eich crybwyll ym mhob datganiad newyddion am Wobrau 2023
- pum lle am ddim ar fwrdd mewn safle heb ei hail yn y seremoni wobrwyo amser cinio ddydd Iau 27 Ebrill 2023 yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd
- eich enw a'ch logo wrth ymyl eich categori noddedig yn rhaglen y seremoni wobrwyo
- eich enw a'ch logo wrth ymyl eich categori noddedig yn rhaglen y seremoni wobrwyo
- eich enw a'ch logo ar brif arddangosfa'r llwyfan yn y seremoni wobrwyo
- cyfle i gyflwyno'ch gwobr i'r prosiect/sefydliad buddugol
- ffotograffau gydag'ch enillydd gwobr

- crybwyll eich enw yn ein heitemau e-fwletin am y Gwobrau, sy'n cyrraedd mwy na 45,000 o ymarferwyr.

Cysylltwch â ni i ddod yn noddwr

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn brif noddwr, neu os hoffech noddi categori gwobrwyo, anfonwch e-bost at Malcolm Williams yn

gwobrau@gofalcymdeithasol.cymru